HM Prison & Probation Service

National Probation Service

# Fframwaith Partneriaeth Cenedlaethol gyda Chymunedau Ffydd (gan gynnwys Caplaniaeth carchardai)

Hydref 2020

# Cynnwys

**Fframwaith Partneriaeth Rhwng Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chymunedau Ffydd (gan gynnwys Caplaniaeth Carchardai)........**Gwall nod tudalen ddim yn cael ei ddiffinio.

**1 Datganiad y Fframwaith Partneriaeth ..................................................................3**

**2. Diben y Fframwaith Partneriaeth………....……………………………..……………3**

**3 Cefndir ......................................................................................................................4**

**3.1 Datblygu'r Fframwaith ..........................................................................................4**

**3.2 Y gyriant tu ôl i'r ffocws cynyddol ar ffydd .........................................................4**

**4 Y Gwasanaeth Cyflenwi presennol a Gweithio mewn Partneriaeth yn y dyfodol .......................................................................................................................5**

**4.1 Ffydd a Chaplaniaeth Carchardai – Y Sefyllfa bresennol mewn Carchardai ..5**

**4.1.1 Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu………...…………………………………… 6**

**4.1.2 Rheoli Troseddwyr mewn Caethiwed (OMiC)**

**4.1.3 Pwyntiau Diddordeb Allweddol o'r Rhyngwynebu rhwng NPS, OMU, Carchardai a Chaplaniaid Carchardai er mwyn gwella Gweithio mewn Partneriaeth…………………………………...…..………………………… 6**

**4.2 Ffydd & NPS – Y sefyllfa bresennol yn y gymuned ..........................................7**

**4.3 Safleoedd Cymeradwywyd a Ffydd.....................................................................7**

**4.4 Prosiectau'r Gaplaniaeth Gymunedol.................................................................8**

**5 Gweithredu'r Fframwaith hwn a Sicrhau Ansawdd............................................8**

**6 Adnoddau ..................................................................................................................9**

**7 Deddfwriaeth, Cyfarwyddiadau Gorfodol a Chanllaw.......................................9**

**8 Rhannu Gwybodaeth .............................................................................................0**

**<u>Atodiad</u>**

**Atodiad A – Saith Egwyddor Euraidd Rhannu Gwybodaeth...** Gwall!**Error! Bookmark not defined.**Error! Bookmark not defined.**2**

**Annex B – Cyfeiriadau a Darllen Pellach...**Gwall!**Error! Bookmark not defined.**Error! Bookmark not defined.**3**

# 1 Datganiad Sefyllfa ar Bolisïau

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) wedi ymrwymo i greu diwylliant cynhwysol i bobl o bob ffydd a chred yn ogystal ag i bobl ddi-gred, Mae'n bwysig bod ein cydweithwyr yn gallu gweithio fel unigolion cyflawn heb ofn, rhagfarn, anffafriaeth na phoenydio ar sail yr hyn maent yn credu ynddo neu'r hyn nad ydynt yn ei gredu. I gefnogi hyn, dylen ni gyd ddeall y ffordd orau i gysylltu â'n gilydd, yn ogystal â'r ffordd orau i gysylltu â phobl ar brawf, mewn ffordd barchus sydd ddim yn ymwthiol i eraill. Mae hyn yn cynnwys gwerthfawrogi'r ffaith ei bod hi'n bosibl i bobl ddehongli gofynion eu ffydd, cred neu anghred mewn ffyrdd gwahanol, ac felly efallai nad ydynt yn dilyn yr un ymarferion a'r un defodau ag eraill sy'n rhannu eu hunaniaeth.

Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ganolog i werthoedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS): Pwrpas, Dynoliaeth, Bod yn Agored a Gyda'n gilydd. Yn rhan o'n gwerthoedd mae'n gyfrifoldeb arnom i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau ffydd a chred cynhwysol i ddioddefwyr troseddau, tystion troseddau, pobl ar brawf ac aelodau'r cyhoedd a ddaw i gysylltiad â'r system gyfiawnder. Bydd deall anghenion amrywiol pobl ar brawf a ddaw i gysylltiad â'r system gyfiawnder yn gymorth i dimoedd polisïau a chyflenwi wrth weithio tuag at gyflawni strategaeth HMPSS.

# 2 Diben y Fframwaith Partneriaeth

Mae'r Datganiad Sefyllfa ar Bolisïau (uchod), Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth 2017-2018 MoJ a Strategaeth Cydraddoldeb 2018-2020 HMPSS, i gyd yn nodi ymrwymiad HMPSS i ddatblygu ac i ddarparu gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer amrywiaeth eang o bobl yn y carchar ac ar brawf, a thriniaeth deg, canlyniadau teg a mynediad cyfartal i'r holl bobl sydd ar brawf. Mae'r Fframwaith cenedlaethol hwn yn nodi ymrwymiad HMPPS i'r egwyddorion trosfwaol mewn perthynas â gwaith y dyfodol rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a phob cymuned ffydd (gan gynnwys Gwasanaethau Caplaniaeth Carchardai) a bydd yn cael ei fabwysiadu gan Ardaloedd a Charchardai HMPSS yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi cael ei ddatblygu ac wedi'i gytuno gan Gaplaniaeth HMPPS, Prif Arweinyddion NPS a Thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant HMPPS. Diben y fframwaith yw ychwanegu at y canllaw Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n bodoli eisoes a'r Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI).

Diben y Fframwaith hwn ydy ffurfioli trefniadau'r bartneriaeth rhwng HMPPS a chymunedau ffydd (gan gynnwys Caplaniaeth Carchardai) er mwyn:

- Darparu gwell cysondeb yn genedlaethol yn y ffordd mae'r HMPPS yn cysylltu â phobl ar brawf sy'n dymuno dilyn eu ffydd a phan fo ffydd yn cael ei asesu i fod yn ffactor amddiffynnol.
- Darparu canlyniadau effeithiol ar gyfer pobl ar brawf sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig yn unol â gwerthoedd ac amcanion HMPPS.
- Gwella'r cyfraniad a wneir wrth weithio mewn partneriaeth a chanolbwyntio ar ffydd o ran rheoli risg, diogelu, ailsefydlu ac ymatal.
- Galluogi effaith gadarnhaol ar gyflenwi gwasanaethau ac ar ganlyniadau.

Mae HMPPS yn adnabod ac yn parchu hawliau pobl ar brawf i gofrestru ac i ymarfer eu ffydd yn y carchar a'r gymuned. Mae PSI 05/2016 'Gofal Ffydd a Bugeiliol', yn cefnogi'r hawl hwn ac yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth ei drosglwyddo. Yr hyn a ddymunir yw bod ffydd ac anghenion crefyddol y rhai sy'n cael eu rheoli gan HMPPS yn cael eu cwrdd yn llawn.

# 3 Cefndir

## 3.1 Datblygu'r Fframwaith

Mewn Cynhadledd Cydbartneriaeth Genedlaethol yn cynnwys MOJ, HMPPS, Caplaniaid Carchardai a Chymuned, NPS a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC), amlygwyd bod ychydig iawn o weithio mewn partneriaeth yn digwydd rhwng Staff y Gwasanaeth Prawf a Chaplaniaid yn arbennig yn ystod pwyntiau allweddol yn ystod y ddedfryd ac wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau o'r carchar. Mae'n bosib bod cyfleoedd wedi'u colli o ystyried y ffactor amddiffynnol mae ffydd yn gallu ei gynnig i lawer o bobl yn y carchar, y cyswllt cadarnhaol sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng Caplaniaid a'r rhai sydd yn y carchar, a'r rhan allweddol y gall ffydd ei chwarae mewn adsefydlu ac ymatal rhag troseddu.

Mae ymchwil i ffydd ac ymatal yn dangos, pan fo gan berson ffydd y gall hyn fod yn ffactor amddiffynnol sy'n gallu cefnogi ymatal rhag troseddu yn ogystal â chynnig lles ysbrydol a rhoi synnwyr o obaith.

Yn ystod 2018-19 cafwyd peilot mabwysiadu cynnar ar draws 12 carchar gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb yn nhermau ymrwymiad rhwng yr NPS a Chaplaniaeth Carchardai, cydnabod ffydd mewn cyfarfodydd cynllunio dedfryd, a chefnogi'r cyfraniad a wneir wrth weithio mewn partneriaeth a chanolbwyntio ar ffydd o ran rheoli risg, diogelu, adsefydlu ac ymatal. Dangosodd gwerthusiad y peilot, pan fo ffydd yn cael ei hasesu fel ffactor amddiffynnol ar gyfer y rhai sydd yn y carchar gan Gaplaniaid a'r Gwasanaeth Prawf ac yn cael ei chynnwys yn rhan o'r daith o gynllunio dedfryd, mae'n cyfrannu at eu hadferiad a'u lles. Roedd ymwybyddiaeth o ffydd, a'i chynhwysiant mewn cyfarfodydd cynllunio dedfryd ac amcanion cynllun dedfryd, hefyd yn gymorth i adnabod unrhyw newidiadau a oedd yn arwydd o anghenion a risgiau eraill.

Mae map proses EQuIP (mae'r ddolen wedi'i hatodi) wedi'i ddatblygu ar gyfer Rheolwyr Troseddwyr Carchardai (POMs) i'w harwain ar sut i gynnwys ffydd yn eu cyfarfodydd cynllunio dedfrydau ynghyd â'r ddogfen gefnogi: **Caplaniaeth mewn Carchardai - proses EQuIP**

Cwblhawyd peilot mabwysiadu cynnar arall yn 2018-2019 mewn 6 Safle Cymeradwy. Dangosodd y peilot ganfyddiadau cadarnhaol trwy ddatblygiad cysylltiadau a waned gan y Safleoedd Cymeradwy â grwpiau ffydd cymunedol a phrosiectau caplaniaeth ac mae hyn wedi arwain at gyflwyno'r gwaith hwn yn genedlaethol i bob Safle Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr.

Mae map proses EQuIP (mae'r ddolen wedi'i hatodi) wedi'i ddatblygu i arwain staff y Gwasanaeth Prawf mewn Safleoedd Cymeradwy i gysylltu â phobl ar brawf pan fo ffydd wedi'i hasesu fel ffactor amddiffynnol. Mae staff Safleoedd Cymeradwy yn cael eu hannog i gysylltu â chymunedau ffydd, gan gynnwys prosiectau caplaniaeth, yn unol â'r Fframwaith hwn a rhoi Cytundebau Rhannu Gwybodaeth yn eu lle: **Caplaniaeth Mewn Safleoedd Cymeradwywyd – proses EQuIP**

## 3.2 Sbardunwyr Ffocws Cynyddol ar Ffydd

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (Erthygl 9) yn nodi bod rhyddid crefydd a chred yn hawliau dynol sylfaenol gan gynnwys datgan ac ymarfer eich ffydd. Mae ffydd wedi'i hymgorffori yn Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth 2017-2020 MOJ. Mae'r dogfennau hyn yn ymrwymo i gydymffurfiaeth HMPPS â'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn llawn ac i gydnabod bod crefydd a chred yn nodweddion gwarchodedig. Yn ychwanegol i hyn, diben Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth 2017-2020 MOJ yw darparu gwasanaethau teg a hygyrch wrth sicrhau bod anghenion yn cael eu hadnabod er mwyn darparu'r canlyniadau gorau posibl.

Yn ôl Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Troseddwyr 2018-2019 HMPPS (Tachwedd 2019), yng Nghymru a Lloegr ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd canran y troseddwyr a oedd wedi datgan bod ganddynt ffydd yn 48% o boblogaeth carchardai. O'r gyfradd hon, y grŵp mwyaf oedd Cristnogion, gyda 57% o garcharorion benywaidd a 48% o garcharorion gwrywaidd yn ystyried eu hunain yn

Gristnogion, a 16% o'r boblogaeth wrywaidd a 6% o'r boblogaeth fenywaidd mewn carchardai yn ystyried eu hunain yn Fwslimiaid. Mae'r ystadegau hyn yn amlygu bod cyfran arwyddocaol o boblogaeth carchardai yn uniaethu â chrefydd ac felly mae'n bwysig bod HMPPS yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu o ran eu ffydd neu gred trwy eu holl ddedfryd.

# 4 Y Gwasanaeth Cyflenwi Presennol a Gweithio Mewn Partneriaeth yn y dyfodol

## 4.1 Ffydd a Chaplaniaeth Carchardai – Y Sefyllfa Bresennol mewn Carchardai

Mae'r gwasanaeth a gyflenwir mewn carchardai o ran ffydd yn cael ei lywodraethu gan PSI 05/2016 - Ffydd a Gofal Bugeiliol i Garcharorion https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/prisons/residential-services/faith-and-pastoral-care-for-prisoners/psi-2016-05. Mae'r PSI hwn yn amlygu cyfrifoldebau carchardai o ran parchu a hwyluso hawliau carcharorion mewn perthynas â'u ffydd. Mae'r PSI wedi'i gysylltu'n glir â deddfwriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn rhoi gorchymyn i garchardai i gofnodi'r ffydd sydd wedi'i datgan gan bob carcharor, i ddarparu mynediad at fyfyrdod ac addoliad preifat yn ogystal â rhai cymunedol ac i ddarparu'r bwyd, y llety, y cyfleusterau golchi a'r arteffactau priodol sy'n ofynnol i bob person sydd yn y carchar i ymarfer ei ffydd yn unol â'r disgwyliadau a'r traddodiadau. Mae'r PSI yn pwysleisio natur aml ffydd Caplaniaeth Carchardai a phwysigrwydd cynrychiolaeth o bob ffydd a chred a dim o fewn y Gaplaniaeth. Mae hyn fel arfer trwy Gaplaniaid cyflogedig a Chaplaniaid sesiynol neu Gaplaniaid gwirfoddol o'r ffydd mwyaf arwyddocaol o ran niferoedd, neu gysylltiadau allanol â chymunedau ffydd i gwrdd ag anghenion y carcharorion hynny a chanddynt ffydd sy'n cael ei ymarfer gan leiafrif. Mae'r PSI yn gweld ffydd nid yn unig fel hawl dynol ond hefyd fel ffactor cadarnhaol sy'n cyfrannu at les ac ymatal, mewn caethiwed ac wrth ryddhau. Mae'r PSI yn rhoi llawer o fanylion defnyddiol am grefyddau gwahanol a manylion cyswllt ar gyfer Ymgynghorwyr Ffydd Pencadlys Cenedlaethol y Gaplaniaeth.

Mae PSI 05/2016, Cyfarwyddyd a Gorchmynion Gwasanaeth Carchardai eraill a Llawlyfr y Gaplaniaeth yn egluro bod Caplaniaeth Carchardai yn cael ei chydnabod fel elfen sy'n graidd i reolaeth a chyflenwad carchardai gyda chaplaniaid carchardai wedi'u hintegreiddio'n llawn i asesiadau risg carchardai, cynllunio dedfrydau, prosesau diogelwch a diogelu. Yn ogystal â chefnogi anghenion ffydd ac anghenion ysbrydol pobl mewn carchardai, cynnal addoliadau cymunedol a gofal bugeiliol, mae caplaniaid carchardai yn cwblhau amrediad o gyfrifoldebau statudol fel a ganlyn:

- Gweld pob un o'r rhai hynny sydd yn y carchar yn unigol o fewn 24 awr o gael eu derbyn
- Gweld pob un o'r rhai hynny sydd ar wahân ac mewn gofal iechyd preswyl, a hynny'n ddyddiol
- Gweld pob un o'r rhai hynny sydd yn y carchar ac mae pryder amdanynt o ran hunan niweidio a hunanladdiad ar ACCT (Asesu, Gofal mewn Caethiwed a Gwaith Tîm) a hynny'n wythnosol a chymryd rhan yn yr adolygiadau amlddisgyblaethol
- Gweld pob un sydd yn cael ei ryddhau o'r carchar.

Mae cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â ffydd mewn carchardai a rôl y Caplaniaid carchardai yn ddibynnol ar fonitro caeth a chyfundrefnau sicrhau ansawdd gan gynnwys archwilio mewnol ac archwilio allanol gan Bencadlys HMPPS yn erbyn Fframwaith Sicrwydd a Chydymffurfiad, adborth gan bobl mewn carchardai trwy Fesur Ansawdd Bywyd yn y Carchar (MQPL) ac yn ddibynnol ar archwiliadau allanol rheolaidd gan Arolygwr Carchardai Ei Mawrhydi gyda hawliau dynol a hawliau carcharorion yn rhan allweddol o'i ddisgwyliadau.

4.1.1 Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu.

Cydnabyddir bod angen cydbwysedd gofalus gan HMPPS rhwng adnabod ffydd fel ffactor amddiffynnol a chefnogol posibl er mwyn adsefydlu a'r angen i amddiffyn y cyhoedd a hyrwyddo diogelu. Byddai trefniadau gweithio mwy agos rhwng Caplaniaeth Carchardai HMPPS, yr NPS,

Safleoedd Cymeradwy ac ymglymiad MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd), yn gwella'r rhannu gwybodaeth a'r asesiad risg mewn perthynas â ffydd, addoliadau a chysylltiadau cymunedol. Yn debyg iawn, mae PSI 05/2016 yn cydnabod bod angen cydbwysedd gofalus rhwng hyrwyddo ffydd ac adnabod ac atal eithafiaeth yn y lleiafrif bach o bobl yn y carchar sydd yn meddu ar neu'n datblygu daliadau eithafol ac sy'n beryglus i eraill. Mae hyn yn cynnwys goblygiadau rhyddhau o dan ddeddfwriaeth ATAL a gwrthderfysgaeth.

4.1.2 Rheoli Troseddwyr mewn Caethiwed (OMiC)

Mae gweithredu'r rhaglen OMiC yn cynrychioli symudiad arwyddocaol o ran sut mae dedfrydau yn cael eu rheoli yn ystod y cyfnod mewn caethiwed. Gweithredwyd ar draws yr ystâd carchar caeedig i ddynion yn Hydref 2019 ac mae cynllun ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer ei gyflwyno'n llawn ar draws yr ystâd. O dan OMiC, bydd Unedau Rheoli Troseddwyr yn cael eu rheoli a'u harwain gan y rheolwr carchar presennol yn y rôl newydd Pennaeth Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr yn ogystal ag Uwch Swyddog(ion) Prawf yn y rôl Pennaeth Cyflenwi Rheolaeth Troseddwyr.

Nodwedd wahaniaethol o'r model yw bod y cyfrifoldeb dros reoli troseddwyr yn symud oddi wrth dîm cymunedol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gaethiwed ar gyfer unigolion sydd wedi cael dedfryd hirach ac sydd wedi eu dyrannu i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. O ganlyniad i hyn, bydd y cyfrifoldeb dros reoli troseddwyr ar gyfer sawl unigolyn yn nwylo'r Rheolwr Troseddwyr Carchar (POM) yn ystod prif gyfnod eu dedfryd o garchar. Gan ddibynnu ar haen y peryglon, bydd y POM hwn naill ai'n swyddog prawf NPS (ar gyfer Haen A & B) neu'n staff y carchar (ar gyfer Haenau C a D). Bydd yr achos hwn ond yn cael ei drosglwyddo i Reolwr Troseddwyr Cymunedol yr NPS (COM) sydd newydd gael ei aseinio yn ystod y cyfnod cyn rhyddhau neu'r cyfnod parôl cyntaf. Mae hyn yn caniatáu darparu gwasanaeth sydd wedi'i deilwra at anghenion, peryglon a chymhlethdod bob achos, gyda'r rhai sydd fwyaf peryglus yn cael eu dyrannu at wasanaeth cynyddol. Gellir gweld hyn ar ei fwyaf perthnasol, yng nghyflwyniad goruchwyliaeth un i un gyda POMs mewn caethiwed.

O dan y model OMIC, bydd dwyster y ddarpariaeth rheoli troseddwyr mae unigolyn yn ei dderbyn yn ddibynnol ar sawl ffactor sy'n cynnwys peryglon, anghenion, cymhlethdod, yr amser sydd ganddynt ar ôl yn y carchar a'r math o ddedfryd. Tra bod newidiadau yn y ffordd mae rheolaeth achos yn cael ei throsglwyddo, bydd llawer yn aros yr un fath, yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n cwblhau dedfryd fer lle bydd y POM yn darparu i'r COM, yr un gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan Oruchwylwyr Troseddwyr i'w Harweinwyr Troseddwyr.

4.1.3 Pwyntiau Diddordeb Allweddol o'r Rhyngwyneb rhwng yr NPS, OMUs y carchardai a Chaplaniaid y Carchardai er mwyn Gweithio mewn Partneriaeth yn well

Bydd y berthynas rhwng y POM (a allai fod naill ai'n gyflogwr NPS neu HMPPS) a'r caplaniaid carchar yn bwysig er mwyn sicrhau bod y caplan yn cael ei gynnwys yn y pwyntiau allweddol yn ystod rheoli'r ddedfryd pan fo'n berthnasol. Cydnabuwyd bod y camau presennol canlynol yn bwyntiau allweddol yn nhaith person yn y carchar pan fo'r rhyngwyneb rhwng y gymuned NPS, staff OMU sydd wedi'u lleoli yn y carchar a Chaplaniaid Carchardai yn cael eu ffurfioli:

- Derbyn ac Anwytho
- Cynllun Dedfryd Cychwynnol (ISP) / Adolygiadau Cynlluniau Dedfryd, yn cydnabod bod ffydd yn ffactor amddiffynnol
- Cynllunio cyn rhyddhau
- Atgyfeirio i Safleoedd Cymeradwy
- Rhyddhau (a allai ymgorffori Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL))

Bydd y cydweithio a'r integreiddio sy'n dilyn yn darparu gwell ffocws gan HMPPS ar ffydd fel ffactor arwyddocaol ac amddiffynnol tra yn y carchar ac wrth ryddhau. Bydd y cyfathrebu a'r rhannu gwybodaeth yn well yn cael ei gefnogi gan bwyntiau cyswllt/blwch post sengl. Bydd hi'n bosibl i'r POM ddarllen gwybodaeth wedi'i nodi gan y gaplaniaeth ar System Wybodaeth Gwasanaeth Cenedlaethol

Rheoli Troseddwyr (NOMIS) o fewn Gwasanaeth Digidol Carchardai (DPS). Gellir darllen unrhyw gofnod OMIC a wneir gan POM yn DPS yn Delius (y system rheoli achosion cymunedol) er mwyn cefnogi'r cyfnod trosglwyddo i'r gymuned. Er nad yw'r gaplaniaeth yn gallu darllen nodiadau achos OMIC, gellir cefnogi a chryfhau'r rhannu gwybodaeth trwy gysylltiadau ad-hoc a thrafodaethau. Yna, dylid cadw cofnod priodol o'r trafodaethau hyn ar DPS gan y POM.

Er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o waith y Gaplaniaeth, mae deunydd canllaw, fideos cwestiynau cyffredin a fideos astudiaeth achos wedi cael eu datblygu ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys ar Fy Nysg (My Learning) EQuIP a SSCL. Yn ogystal â hyn gall staff yr NPS gael mynediad at Gaplaniaeth Carchardai ac Ymgynghorwyr Ffydd trwy fewnrwyd HMPPS (https://intranet.noms.gsi.gov.uk/support/chaplaincy/chaplaincy-contacts) sy'n darparu manylion cyswllt holl arweinyddion y Caplaniaid carchardai ym mhob carchar yng Nghymru a Lloegr er mwyn trafod y gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r canlyniadau a ddisgwylir gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, gydag arolygiadau yn canolbwyntio fwyfwy ar brofiad pobl ar brawf ac yn y carchar a rhanddeiliaid ac yn rhoi pwyslais ar bartneriaeth a chysylltiadau cymunedol, integreiddio gwasanaethau, cynllunio rhyddhau a pharhad gofal gwell.

Mae'r trefniadau partneriaeth hyn yn cael eu cynnwys yn y broses OMIC EQuIP fel bod adnabod a hyrwyddo ffydd yn ganolog i'r broses hon.
**Map Proses OMIC yn EQUIP**

## 4.2 Ffydd a'r NPS – Y Sefyllfa Bresennol yn y Gymuned

Mae'r NPS wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn cydnabod bod crefydd yn nodwedd warchodedig. Mae'r Ffurflen Wybodaeth Cydraddoldeb (EIF) wedi cael ei chyflwyno fel y prif broses ar gyfer adnabod a nodi amrywiaeth a nodweddion gwarchodedig. Mae crefydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen EIF a dylid ei gofnodi ar Delius. Tra bo'r NPS yn defnyddio'r wybodaeth i archwilio anghenion penodol yr unigolyn ac unrhyw rwystrau posibl o ran ymrwymiad, dydy ffydd a'i phwysigrwydd i'r unigolyn neu berthnasedd o ran adsefydlu/ymatal ddim yn cael ei hystyried yn rheolaidd er mae'n ddisgwyliedig y bydd cyflwyno'r gwaith hwn ar draws yr NPS, Safleoedd Cymeradwy a Charchardai yn helpu i wella'r ffocws hwn. Ar hyn o bryd does dim Cyfarwyddyd Prawf na Fframwaith sy'n benodol i grefydd/ffydd yn gyfatebol i PSI 05/2016 a dim canllaw ymarfer penodol da yn bodoli.
Fodd bynnag, mae cynlluniau i gynnwys ffydd yn Strategaeth Cydraddoldeb diwygiedig HMPPS - i'w chwblhau yn 2021. Rhan bwysig o gysylltu â sefydliadau a chymunedau ffydd, ydy sefydlu Cytundebau Rhannu Gwybodaeth. Mae'r cytundebau hyn yn gymorth wrth amlygu natur y wybodaeth sy'n cael ei rhannu a'r broses ar gyfer rhannu.

Y cynllun yw diweddaru'r Fframwaith hwn ac EQuIP wrth i'r Gwaith hwn ddatblygu.

## 4.3 Safleoedd Cymeradwy a Ffydd

Mae canllaw Safleoedd Cymeradwy EQuIP wedi'i ddiweddaru i gynnwys proses sy'n ystyried anghenion ffydd preswylwyr ac ymrwymo â phrosiectau ffydd lleol a phrosiectau'r Gaplaniaeth. Er nad yw Safleoedd Cymeradwy yr un fath â charchardai gan nad yw preswylwyr yn cael eu hamddifadu'n llwyr o'u rhyddid, maent er hynny'n sefydliadau preswyl. Mae PSI 05/2016 yn darparu canllaw defnyddiol o ran sut mae angen i Safleoedd Cymeradwy ystyried ffydd a chred eu preswylwyr ac o ran darparu amgylchedd preswyl sy'n parchu ac yn hwyluso anghenion penodol preswylwyr i ymarfer eu ffydd (er enghraifft deiet, glanweithdra, mynediad at fan tawel ac arteffactau crefyddol). Mae Safleoedd Cymeradwy hefyd yn ganolog i ddatblygu llwybrau sy'n galluogi preswylwyr i gael mynediad at addoli yn y gymuned yn ddibynnol ar asesiad risg a phrosesau rheoli risg a diogelu.

Bydd y Fframwaith hwn yn cryfhau'r trefniadau partneriaeth rhwng Safleoedd Cymeradwy, prosiectau cymunedol y Gaplaniaeth a chymunedau ffydd er mwyn sicrhau y bydd anghenion ysbrydol pobl ar brawf yn cael eu diwallu mewn dull diogel yn dilyn cael eu rhyddhau o'r carchar i'r gymuned. Er mwyn cefnogi'r trefniadau hyn, mae ffurflen atgyfeirio Safleoedd Cymeradwy yn ymgorffori

ffydd/cred ac mae templedi gwaith allweddol yn cynnwys anogwyr trafodaethau am ffydd ac anghenion gofal bugeiliol. Yn ogystal â hyn mae staff Safleoedd Cymeradwy yn gallu cael mynediad at restr o Ymgynghorwyr Ffydd a Chaplaniaeth ar fewnrwyd HMPSS (https://intranet.noms.gsi.gov.uk/support/chaplaincy/chaplaincy-contacts) er mwyn cael manylion cyswllt Arweinwyr y Caplaniaid ym mhob carchar, a bod yn rhan o drafodaethau cyn rhyddhau a chyfarfodydd lle mae rhyddhau i Safle Cymeradwy yn cael ei gynllunio.

Mae'r trefniadau hyn hefyd yn sicrhau bod ffocws yr NPS ar wella'r ffordd o gofnodi data amrywiaeth yr EIF a'i ymateb i adnabod a chwrdd ag anghenion person ar brawf, yn cael ffocws a sylw o'r newydd.

### 4.4 Prosiectau Cymunedol y Gaplaniaeth

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae sawl prosiect Cymunedol y Gaplaniaeth wedi dod i fodolaeth. Yn gyffredinol nid yw'r rhain er budd ariannol nac elusennol ond yn sefydliadau elusennol crefyddol sydd wedi datblygu i ddarparu amrywiaeth o ymrwymiadau ffydd cymunedol, gwasanaethau allgymorth ac ailsefydlu i bobl ar brawf a chanddynt ffydd neu beidio. Tra bod y rhain ar y dechrau yn seiliedig ar ffydd a gofal bugeiliol, yn gynyddol maent yn darparu mewngymorth i'r carchardai, gwasanaethau adsefydlu wedi'u hintegreiddiol ar gyfer pobl yn y carchar a gwasanaethau ar gyfer pobl ar brawf yn y gymuned. Yn gyffredinol, mae gwasanaethau Caplaniaeth Gymunedol wedi'u cysylltu'n gryf â Chaplaniaeth Carchardai ac yn gallu darparu llwybr gwych ymlaen i gefnogi carcharorion gyda'u ffydd a'u hanghenion bugeiliol wrth iddynt gael eu rhyddhau. Mae gan bob sefydliad broffil gwasanaethau gwahanol er gan amlaf maent yn cynnwys gofal bugeiliol, cefnogaeth a mentora, llety, cymorth tai, sgiliau sylfaenol a chyngor a chefnogaeth ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant. Mae rhai gwasanaethau caplaniaeth yn cael eu hariannu ar hyn o bryd trwy lefel cytundeb gwasanaeth i ymgymryd â rhai agweddau o wasanaethau "Through The Gate" (TTG). Yn ddibynnol ar yr asesiad risg/diogelu priodol, mae potensial i bobl ar brawf yn y gymuned gael mynediad at amrywiaeth o gefnogaeth a gwasanaethau trwy'r Gymdeithas Gaplaniaeth Gymunedol. Gallai gwella'r cysylltiadau gyda'r Gaplaniaeth Gymunedol hefyd fod yn fuddiol ar gyfer preswylwyr Safleoedd Cymeradwy o ran cael mynediad at weithgareddau pwrpasol a chefnogaeth pan fo prosiect caplaniaeth gymunedol yn bodoli.

Bydd gwella'r bartneriaeth rhwng HMPPS a phrosiectau Cymunedol y Gaplaniaeth yn arwain at wella dealltwriaeth o waith mewn prosiectau o'r fath, gwella'r mynediad at brosiectau o'r fath gan staff HMPPS, ac yn ffurfioli'r ffordd y rhennir gwybodaeth drwy ddefnyddio Cytundebau Rhannu Gwybodaeth. Dau brosiect Caplaniaeth allweddol a oedd yn rhan o beilot mabwysiadu cynnar ydy Welcome Directory <https://www.welcomedirectory.org.uk> (sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Wasanaethau Caplaniaeth a Ffydd HMPPS ac sy'n ddull cydweithredol o adnabod a chefnogi cymunedau ffydd sy'n croesawu'r rhai sy'n gadael y carchar, a Chymdeithas y Gaplaniaeth Gymunedol (<https://www.communitychaplaincy.org.uk/>) sef y sefydliad sy'n cefnogi dros 30 prosiect Caplaniaeth Gymunedol ar draws y DU.

## 5 Gweithredu'r Fframwaith hwn a Sicrhau Ansawdd

Roedd y peilot mabwysiadu cynnar a gynhaliwyd dros 2018-2019 yn dangos yn llwyddiannus bod bathu dull holistaidd o oruchwylio a rheoli pobl yn y carchar a phobl ar brawf, pan mae ffydd ac anghenion bugeiliol yn cael eu cynnwys yn y daith ddelfrydol, yn gallu cefnogi eu hadferiad a'u lles mewn ffordd gadarnhaol. Yn ogystal â hyn, llwyddodd y peilot i gryfhau'r cysylltiadau rhwng staff y Gwasanaeth Prawf a Chaplaniaid Carchardai a chefnogi datblygiad y cysylltiad â grwpiau ffydd yn y gymuned gan staff Safleoedd Cymeradwywyd.

Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi cyflwyno'r gwaith hwn ar draws yr NPS, pob carchar a Safle Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr.

Fel y nodir yn EQuIP, bydd prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod y Fframwaith hwn yn cael ei gyflwyno ar draws yr NPS ac yn cael ei fewnosod yn rhan o fframweithiau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd 'busnes fel arfer'. Ceir manylion am y prosesau sicrhau ansawdd sy'n cael eu cwblhau mewn carchardai yn adran 4.1 ac mae'n cynnwys archwiliadau mewnol ac allanol.

## 6 Adnoddau

Bydd y fframwaith yn cael ei gyflwyno o fewn adnoddau sy'n bodoli eisoes.

Dydy'r NPS ddim yn ymrwymo i wneud cyfraniadau ariannol rheolaidd nac yn ymrwymo i oblygiadau prosiectau Caplaniaeth Gymunedol nac unrhyw gymuned ffydd. Fodd bynnag, pe bai arian yn dod i law, mae gan yr NPS yr hawl i negydu blaenoriaethau allweddol i'r Fframwaith eu cyflwyno. Dylid llunio manyleb yn amlinellu'r amcan(ion) i'w cyflawni, y gweithgareddau, dangosyddion perfformiad allweddol, cyfanswm yr arian sydd ar gael a dyddiad y dylid cyflawni'r amcanion hyn.

## 7 Deddfwriaeth, Cyfarwyddiadau Gorfodol a Chanllaw

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (Erthygl 9) http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents yn cydnabod bod rhyddid crefydd a chred yn hawliau dynol sylfaenol gan gynnwys datgan ac ymarfer eich ffydd. Mae ffydd wedi'i hymgorffori yn Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth 2017-2020 MOJ ac o fewn Strategaeth Cydraddoldeb HMPPS. Mae'r dogfennau hyn yn sicrhau ymrwymiad HMPPS i gydymffurfio'n llawn â'r deddfwriaethau cydraddoldeb ac i gydnabod bod crefydd a chred yn nodwedd warchodedig.

Fel yr amlygir uchod mae cyflenwi gwasanaethau mewn carchardai mewn perthynas â ffydd yn cael ei lywodraethu gan PSI 05/2016 - Ffydd a Gofal Bugeiliol i Garcharorion https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/prisons/residential-services/faith-and-pastoral-care-for-prisoners/psi-2016-05. Mae'r PSI yn amlygu cyfrifoldebau carchardai o ran parchu a hwyluso hawliau pobl sydd yn y carchar mewn perthynas â'u ffydd. Mae'r PSI wedi ei gysylltu'n gryf â chydraddoldeb a deddfwriaeth hawliau dynol ac yn gorchymyn i garchardai gadw cofnod o'r ffydd mae pob person yn y carchar yn ei datgan, i ddarparu mynediad at fyfyrdod ac addoliad boed hynny'n breifat neu'n gymunedol, i ddarparu'r bwyd, y llety, y cyfleusterau golchi a'r arteffactau priodol sy'n ofynnol i bob person er mwyn ymarfer eu ffydd yn unol â'u disgwyliadau a'u traddodiadau. Mae'r PSI yn pwysleisio natur aml-ffydd caplaniaeth carchardai a phwysigrwydd cynrychiolaeth o bob ffydd a dim o fewn y gaplaniaeth. Mae'r PSI yn ystyried ffydd, nid yn unig fel hawl dynol ond hefyd fel ffactor cadarnhaol sy'n cyfrannu at les ac ymatal, mewn caethiwed ac wrth i garcharorion gael eu rhyddhau. Mae'r PSI yn rhoi llawer iawn o fanylion defnyddiol am grefyddau gwahanol a hefyd yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer Ymgynghorwyr Ffydd Pencadlys y Gaplaniaeth Genedlaethol.

Trwy PSI 05/2016 a Chyfarwyddiadau a Gorchmynion Gwasanaethau Carchardai perthnasol eraill a Llawlyfr y Gaplaniaeth, mae HMPPS yn egluro bod Caplaniaeth Carchardai yn cael ei chydnabod fel elfen ganolog wrth reoli a chyflenwi carchardai gyda chaplaniaid carchardai wedi'u hintegreiddio'n llawn o fewn asesiad risg carchardai, rheolaeth risg, cynlluniau dedfryd, prosesau diogelwch a diogelu.

Mae'r NPS wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth a chyflawni ei gyfrifoldebau statudol i reoli pobl mewn prawf yn effeithiol er mwyn lleihau'r risg o niwed, amddiffyn y cyhoedd ac atal dioddefwyr. Er enghraifft, mae'r NPS yn ddarostyngedig i weithdrefnau MAPPA mewn perthynas â rheoli'r perygl o niwed, https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/probation/public-protection/mappa

Ar lefel weithredol mae'r NPS wedi ymrwymo i gysylltu â charchardai a phartneriaid lleol er mwyn adnabod peryglon, sicrhau ymateb cyflym i gynnydd peryglon ac i ddatblygu cynlluniau rheoli risg.

Mae'r fframwaith hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol â Strategaeth Cydraddoldeb HMPSS a gwerthoedd craidd ac ymddygiad y Gwasanaeth Sifil sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a pherthnasau da rhwng personau sy'n wahanol o ran credoau crefyddol, barn wleidyddol, grŵp hiliol, oed, statws priodasol, cyfeiriadaeth rywiol, rhwng personau gydag anabledd a phersonau heb anabledd, rhwng personau a chanddynt ddibynyddion a phersonau heb ddibynyddion, ac nad yw eu gweithredoedd yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r grwpiau hyn.

Mae holl staff HMPPS yn ymdrechu i arddangos eu gallu i amddiffyn y cyhoedd a newid bywydau mewn ffordd gyhoeddus a thryloyw. Dyma'r weledigaeth a'r gwerthoedd ar gyfer HMPPS:

**Ein gweledigaeth:** Gweithio gyda'n gilydd i amddiffyn y cyhoedd a helpu pobl i fyw bywydau sy'n dilyn y gyfraith a byw bywydau cadarnhaol.

**Ein gwerthoedd:**

**Pwrpas** – Rydym yn gweithredu dedfrydau a gorchmynion y Llysoedd. Rydym yn atal dioddefwyr trwy newid bywydau.

**Dynoliaeth** – Rydym yn credu bod bywydau yn gallu newid er gwell. Rydym yn gweithio er mwyn hybu gobaith ac yn darparu cyfleoedd i adsefydlu. Rydym yn trin pawb mewn ffordd weddus a chyda pharch.

**Bod yn Agored** – Rydym yn deg. Rydym yn gwybod bod penderfyniadau clir a chyfiawn yn gwneud gwahaniaeth i'n gwaith. Rydym yn dryloyw ynghylch yr hyn rydym yn ei wneud ac yn edrych am gyfleoedd i ddysgu ac yn arloesi i wella.

**Gyda'n gilydd** – Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Rydym yn gweithio ar draws carchardai, y gwasanaeth prawf a chaethiwed ieuenctid a chyda'n partneriaid a'n darparwyr er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau.

## 8 Rhannu gwybodaeth

Mae angen i drefniadau rhannu gwybodaeth fod yn gydnaws â deddfwriaethau presennol, gan gynnwys Diogelu Data a Hawliau Dynol, a pholisïau a gweithdrefnau MOJ. Mae Elfennau Allweddol eraill yn cynnwys:

- Amcanion y 'rhannu' h.y. pam ein bod ni'n rhannu gwybodaeth; beth yw diben hyn?
- Y Rhannu – h.y. beth sydd angen i NPS ei rannu ac ar ba fformat (ac i'r gwrthwyneb) – mae hyn yn bwysig er mwyn cadarnhau cymesuredd
- Y Sylfaen Gyfreithiol – heb hyn ni allwn rannu
- Yr angen am E-bost Diogel ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth (a Chyfleuster Rheoli Achos Diogel/Storio TG (os yw'n berthnasol))

Gellir dod o hyd i dempled Cytundeb Rhannu Gwybodaeth ar EQuIP neu drwy fewnbynnu 'Cytundeb Rhannu Gwybodaeth' yn chwiliad geiriau allweddol EQUiP. Mae gan bob ardal NPS Swyddog Gwybodaeth a/neu Swyddog Gwybodaeth Leol sy'n gallu cynnig cymorth os oes angen.

<u>Cytundeb Rhannu Gwybodaeth</u>

Bydd cyfnewid gwybodaeth gydag unrhyw asiantaeth allanol yn ddibynnol ar ofynion Cytundeb Rhannu Gwybodaeth (ISA). Mae gan rai asiantaethau eu templedi eu hunain gan gynnwys Protocolau

Rhannu Gwybodaeth a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth; gallwn dderbyn y rhain ond dim ond os ydynt yn ateb gofynion ISA.

Cyn i'r NPS lofnodi ISA, mae'n argymell bod y cytundeb yn cael ei wirio'n drylwyr gan brosesau llywodraethu gwybodaeth perthnasol yr NPS. Mae Atodiad A yn cynnwys y saith egwyddor euraidd wrth rannu gwybodaeth a gyhoeddwyd yn rhan o ganllaw rhannu gwybodaeth ddiwygiedig 2015 y Llywodraeth ar gyfer ymarferwyr diogelu.

## Atodiad A – Saith Egwyddor Euraidd Rhannu Gwybodaeth

1. Cofiwch nad yw Deddf Diogelu Data 2018 a chyfraith hawliau dynol yn rhwystro rhannu gwybodaeth mae cyfiawnhad dros ei rhannu ond maent yn rhoi fframwaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael eu rhannu'n briodol.

2. Byddwch yn agored ac yn onest gyda'r unigolyn (a/neu'r teulu pan fo'n briodol) o'r cychwyn cyntaf ynghylch pam, beth, sut a chyda pwy y byddai gwybodaeth yn gallu cael ei rhannu, a cheisiwch eu cael i gytuno, oni bai ei bod hi'n anniogel neu'n anaddas gwneud hynny.

3. Ceisiwch gyngor gan ymarferwyr eraill os oes unrhyw amheuaeth gennych ynghylch yr achos rhannu gwybodaeth, heb ddatgelu hunaniaeth yr unigolyn pan fo hynny'n bosibl.

4. Rhannwch gyda chydsyniad gwybodus pan fo'n briodol a, pan fo'n bosibl, parchwch ddymuniadau'r rhai sydd ddim yn rhoi eu caniatâd i rannu gwybodaeth gyfrinachol. Gallwch barhau i rannu gwybodaeth heb ganiatâd, os oes rheswm digonol dros wneud hynny yn eich barn chi, fel efallai pan fydd diogelwch mewn perygl. Byddwch angen i'ch barn fod yn seiliedig ar ffeithiau'r achos. Pan fyddwch yn rhannu neu'n gwneud cais am wybodaeth bersonol gan rywun, byddwch yn sicr o gynsail y cais. Pan fo gennych ganiatâd, byddwch yn ystyriol efallai na fyddai unigolyn yn disgwyl i'r wybodaeth gael ei rhannu.

5. Ystyriwch ddiogelwch a lles: Gwnewch eich penderfyniadau ynghylch rhannu gwybodaeth ar sail ystyriaethau o ran diogelwch a lles yr unigolyn a phobl eraill sydd efallai yn cael eu heffeithio gan eu gweithredoedd.

6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, digonol, cywir, amserol a diogel: Sicrhewch fod y wybodaeth rydych yn ei rhannu yn angenrheidiol ar gyfer diben y rhannu, ei bod ond yn cael ei rhannu â'r unigolion hynny sydd ei hangen, ei bod yn gywir ac yn gyfredol, ei bod yn cael ei rhannu'n amserol, ac yn cael ei rhannu'n ddiogel (gweler yr egwyddorion).

7. Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – boed hynny i rannu gwybodaeth neu beidio. Os ydych yn penderfynu rhannu, yna gwnewch gofnod o'r hyn rydych wedi'i rhannu, gyda phwy ac at ba ddiben.

## Atodiad B – Cyfeiriadau a Darllen Pellach

Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/37/contents
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/37/section/115

Diogelu Data: Canllaw i Rannu Data a Chod Ymarfer Rhannu Data. Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth.
https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/
https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/key-data-protection-themes/age-appropriate-design-a-code-of-practice-for-online-services/9-data-sharing/

*Llywodraeth Ei Mawrhydi 'Information Sharing Advice for Practitioners Providing Safeguarding Services to Children, Young People, Parents and Carers' Mawrth 2015 https://www.scie.org.uk/care-act-2014/safeguarding-adults/sharing-information/seven-golden-rules.asp*

Canllaw MAPPA NOMS (2012) Llundain.
https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/probation/public-protection/mappa

PSI 05/2016 – Ffydd a Gofal Bugeiliol i Garcharorion https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/prisons/residential-services/faith-and-pastoral-care-for-prisoners/psi-2016-05

PI 15/2016 Polisi Rhannu Gwybodaeth: https://www.justice.gov.uk/downloads/service users/psipso/psi-2016/psi-16-2016-pi-15-2016-information-sharing-policy.pdf

Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2017-2020:
https://intranet.justice.gov.uk/guidance/equality-and-diversity/moj-di-strategy/

Strategaeth Cydraddoldeb 2018-2020 HMPPS:
https://www.gov.uk/government/statistics/hm-prison-and-probation-service-offender-equalities-annual-report-2018-to-2019

Adroddiad Cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaeth 2018-2019 HMPPS:
https://www.gov.uk/government/statistics/hm-prison-and-probation-service-offender-equalities-annual-report-2018-to-2019

Llywodraeth Ei Mawrhydi 'Information Sharing Advice for Practitioners Providing Safeguarding Services to Children, Young People, Parents and Carers' Mawrth 2015 https://www.scie.org.uk/care-act-2014/safeguarding-adults/sharing-information/seven-golden-rules.asp